



12 Mai 2014

**Annwyl Syr / Madam**

**Ymgynghoriad ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Defra ynghylch gweithredu Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn y Deyrnas Unedig.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, cyrff anllwydraethol, Awdurdodau Lleol a chymunedau i helpu i roi polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar waith. Rydym yn arddel dull rheoli ar lefel yr ecosystem i hyrwyddo gwaith integredig i reoli adnoddau naturiol sy'n dod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Rydym yn cefnogi'n frwd y blaenoriaethau strategol a nodir o dan y Gronfa newydd, gan gynnwys cyflawni polisi morol ehangach (gan gynnwys amcanion ar gyfer cynllunio gofodol morol, Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, ac eraill) fel rhan o'r fframwaith arfaethedig. Mae'r ffordd y dosberthir arian ar draws Blaenoriaethau'r Undeb yn adlewyrchu'r dull integredig o reoli adnoddau naturiol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yng Nghymru a dylai fod yn gyfle arwyddocaol i gyflawni amcanion a rennir i'r amgylchedd morol yng Nghymru.

Diolch unwaith eto am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad cwmpasu strategol hwn. Gobeithio y cewch y sylwadau hyn yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

Ceri Davies

Executive Director for Knowledge, Strategy & Planning

Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

I gael mwy o wybodaeth am ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru, cysylltwch â: Colin Charman,  
Cynghorydd Pysgodfeydd Morol CNC

01248 387288

[Colin.charman@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:Colin.charman@naturalresourceswales.gov.uk)